Crynodeb Gweithredol:
Arolwg o ffermwyr â choetir ar eu tir

Adroddiad ar ran Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Crynodeb o'r adroddiad

Yng Nghymru, mae yna 38,000 o ddaliadau fferm, ac o'r cyfanswm hwn mae gan 7,500 (20%) o ffermydd o leiaf 0.5 hectar o goetir. Fodd bynnag, mae profiad ac ymchwil Comisiwn Coedwigaeth Cymru (CC Cymru) yn awgrymu bod y nifer o ffermwyr sy'n ceisio am grantiau coetir yn isel.

Ym mis Awst 2009, comisiynodd CC Cymru Wavehill Consulting i weithredu arolwg o ffermwyr yng Nghymru â choetir ar eu fferm er mwyn darganfod:

- Ym mha ffordd mae ffermwyr yn defnyddio coetiroedd ar hyn o bryd, os o gwbl;
- Eu rhesymau dros reoli (neu beidio â rheoli) eu coetiroedd yn weithredol;
- Os ydynt yn cynhyrchu unrhyw incwm ariannol neu mewn nwyddau o'u coetiroedd;
- Eu hagwedd tuag at y grantiau cyfredol a gynigir gan CC Cymru a pha ffactorau sy'n ysgogi'r ffermwr i ymwneud â rheoli coetir.

Cyflawnwyd cyfanswm o 264 o gyfweliadau dros y ffôn; 164 gyda ffermwyr sydd wedi derbyn grant coetir a 100 gyda ffermwyr nad ydynt wedi derbyn grant coetir.

Defnydd coetiroedd ar ffermydd

Roedd y mwyafrif o'r ffermwyr a gyfwelwyd yn defnyddio'u coetiroedd mewn rhyw ffordd (92% - 245/264) ac wedi cyflawni rhyw fath o waith yn y coetiroedd yn ystod y tair blynedd diwethaf (93%-243/264).

Y defnydd mwyaf cyffredin o goetiroedd fferm oedd gwella cynefinoedd bywyd gwyllt a darparu lloches i anifeiliaid. Y gwaith mwyaf cyffredin a weithredwyd yn y coetiroedd oedd 'creu ffiniau'; a 'chlirio pren marw a phren sydd wedi cwympo'.

Mae rhannu'r sampl i ffermwyr sydd wedi derbyn grant coetir a ffermwyr nad ydynt wedi derbyn grant coetir yn datgelu nifer o wahaniaethau yn y gweithgareddau a'r gwaith sydd wedi'i weithredu. Er enghraifft, mae canran uwch o ffermwyr sydd wedi derbyn grant yn defnyddio'u coetiroedd ar gyfer:

- Dibenion hamdden (40% - 66/164 o gymharu â 24% - 24/100)
- Cynhyrchu coed (21% - 34/164 - o gymharu â 5% - 5/100)
- I wella cynefinoedd bywyd gwyllt (67% - 110/164 – o gymharu â 58% - 58/100)

Mae ffermwyr sydd wedi derbyn grant coetir hefyd wedi ymgymryd ag ystod ehangach o weithgareddau yn eu coetiroedd. Er enghraifft, mae 44% (74/164) o ffermwyr sydd wedi derbyn grant wedi teneuo eu coetiroedd o gymharu â 14% (14/100) o'u cymheiriaid nad ydynt wedi derbyn grant.

Datgan y mwyafrif o ffermwyr a gyfwelwyd eu bod nhw (pobl sydd fel arfer yn gweithio ar y fferm) yn cyflawni'r holl waith sydd angen ei wneud yn y coetiroedd. Dim ond 7% (16/264) o ffermwyr nad oedd yn cyflawni unrhyw agwedd ar y gwaith. Fodd bynnag, roedd canran sylweddol is o ffermwyr oedd wedi derbyn grant yn cyflawni'r *holl* waith eu hunain (54% o gymharu â 83%) ac fe ellir esbonio hyn trwy natur ehangach y gwaith maen nhw'n ei wneud yn y coetiroedd.

Roedd 82% (215/264) o'r rheiny a arolygwyd wedi plannu coed neu gloddiau ar eu tir ar ryw adeg; 29% (77/264) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rhoddwyd ystod o atebion pan ofynnwyd i'r ffermwyr esbonio *pam* y gwnaethon nhw hynny, a'r mwyaf cyffredin oedd creu lloches, cynefin bywyd gwyllt a ffiniau ar eu tir. Roedd cadwraeth yn ateb llawer mwy amlwg ymysg y rheiny oedd wedi derbyn grant coetir.

Yn gyffredinol, mae'r sampl o ffermwyr yn rhannu'n gyfartal i'r rheiny sydd wedi derbyn cyngor ar reoli coetiroedd a'r rheiny nad ydynt wedi derbyn cyngor o'r fath. Fodd bynnag, mae canran llawer uwch o ffermwyr sydd wedi derbyn grant coetir wedi derbyn cyngor (74% - 121/164) o gymharu â'u cymheiriaid nad ydynt wedi derbyn grant (11% - 11/100).

Darganfu'r arolwg fod yna amrywiaeth sylweddol yn y cyfanswm amser ac arian y mae ffermwyr yn ei wario ar eu coetiroedd sy'n dibynnu ar ba weithgareddau y maen nhw'n ei wneud ac ym mha ffordd y maen nhw'n defnyddio'u coetiroedd. Mae dadansoddiad o'r data a gasglwyd yn ystod yr arolwg yn awgrymu nad yw coetiroedd yn debygol o gyfrannu incwm sylweddol at fusnes fferm (heb gynnwys unrhyw daliadau grant). Fodd bynnag, mae nifer o ffermwyr sydd â choetiroedd yn defnyddio'r coetir fel ffynhonnell coed tân, gyda rhai hefyd yn eu defnyddio nhw fel ffynhonnell coed. O'r rheiny a arolygwyd, roedd 25% yn rhoi coed tân yn rhad ac am ddim, 2% yn gwerthu coed tân a 2% yn gwerthu coed. Ar gyfartaledd, mae ffermwyr (sydd wedi derbyn grant) yn gweithio ar eu coetiroedd am 7 diwrnod y flwyddyn, tra bod ffermwyr (nad ydynt wedi derbyn grant) yn gweithio ar eu coetiroedd am 2 ddiwrnod y flwyddyn.

Safbwyntiau ffermwyr ar grantiau coetir

Coetiroedd Gwell i Gymru (BWW) yw cynllun grantiau presennol CC Cymru sy'n rhoi pwyslais ar reolaeth coetiroedd o ansawdd uchel ac sy'n cynnig grantiau wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer coetiroedd yng Nghymru. Dyma'r olynydd i'r *Cynllun Grantiau Coetir* (WGS) a ddaeth i ben ym mis Awst 2006 er bod gan rai ffermwyr gytundebau ar waith fel rhan o'r cynllun hwnnw. Yn ogystal, rhwng 2006 a 2008, cynhaliwyd cynlluniau peilot *Camau Cyntaf* gan Goed Cymru ar ran Comisiwn Coedwigaeth Cymru, gyda'r bwriad penodol o reoli mwy o goetiroedd ar dir fferm.

Mae'r tri chynllun coetir yn uchel eu gwerth ymysg ffermwyr; graddiodd 85% (66/77) o'r ffermwyr a gafodd gefnogaeth gan WGS, 79% (57/73) o'r rheiny a gafodd gefnogaeth gan gynllun BBW a 90% (28/31) o'r rheiny a gafodd gefnogaeth gan Camau Cyntaf y cynllun penodol fel 'da' neu 'da iawn'. Pan ofynnwyd iddynt nodi beth oedd elfen orau'r cynllun, yr ateb mwyaf cyffredin oedd y manteision ariannol, er bod hi'n werth nodi bod y ffermwyr yn gwerthfawrogi'r help a'r cyngor a ddarperir hefyd.

Pan ofynnwyd iddynt esbonio beth a ysgogodd iddynt wneud cais am grant coetir a beth oedden nhw'n gobeithio ei gyflawni, awgrymodd atebion y ffermwyr gymysgedd o beth ellir ei ddisgrifio fel ffactorau ysgogi ymarferol yn ymwneud â rheoli'r fferm ("codi clawdd o gwmpas y coetir") a ffactorau cysylltiedig â'r amgylchedd neu fywyd gwyllt ("creu coetir gwell"). Darganfu'r arolwg fod y Comisiwn Coedwigaeth a/neu Coed Cymru[1] wedi cael dylanwad mawr ar benderfyniad y ffermwyr i wneud cais am grant coetir.

Un o brif amcanion y cynllun Camau Cyntaf oedd denu ffermwyr a fyddai wedyn yn ceisio am grant BBW. Fodd bynnag, dim ond 10% (3/31) o'r sampl o ffermwyr a gafodd eu cefnogi gan y cynllun oedd yn ystyried ceisio am grant BBW; nid oedd 42% (13/31) ohonynt yn ystyried ceisio am grant BBW ac roedd 38% (12/31) yn ansicr.

Safbwyntiau'r ffermwyr nad ydynt wedi derbyn grant coetir

Mae'r ffaith nad oedd 1 o bob 4 ffermwr a gyfwelwyd (23/100) yn ymwybodol o'r potensial i wneud cais i dderbyn grant coetir yn awgrymu bod yna ddiffyg gwybodaeth sylweddol ynghylch y gefnogaeth sydd ar gael ymysg ffermwyr nad ydynt wedi derbyn grant coetir o'r blaen.

Pan ofynnwyd iddynt a oedden nhw'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad *"nid yw'r grantiau cywir ar gael"*, ni chytunodd nac anghytunodd 80% (80/100) o'r sampl o ffermwyr gyda'r datganiad; sydd eto'n awgrymu diffyg gwybodaeth ynghylch y mater. Nid oedd y rhan helaeth o'r ffermwyr a gyfwelwyd (84/100) wedi ymchwilio'r grantiau sydd ar gael i reoli coetiroedd. Dim ond 2% o'r sampl oedd wedi ymchwilio'r mater yn ystod y 12 mis diwethaf.

Pan ofynnwyd i'r ffermwyr a oedd unrhyw beth penodol a fyddai'n gwneud iddynt wneud cais am grant yn y dyfodol, atebodd 27% (27/100) 'na' neu 'ddim yn gwybod', sy'n awgrymu y bydd hi'n anodd iawn darbwyllo grŵp o ffermwyr i wneud cais am grant. Fodd bynnag, mae yna grŵp mwy o ffermwyr (73%) y byddai'n bosibl eu darbwyllo os y gellir rhannu'r gefnogaeth gywir gyda nhw, neu'n fwy penodol, y wybodaeth gywir.

Unwaith eto, roedd diffyg gwybodaeth yn amlwg pan ofynnwyd i'r ffermwyr i amcangyfrif y gost o sefydlu coetir ar eu fferm; nid oedd y mwyafrif (88/100) yn gallu amcangyfrif y gost o sefydlu erw sgwâr o goetir coed conwydd neu erw sgwâr o goetir llydanddail (89/100).

Gellir defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr arolwg i greu'r darlun canlynol o ffermwr arferol nad yw wedi derbyn grant coetir:

> *Mae'r ffermwr yn anghytuno â'r awgrym nad oes ganddo unrhyw ddiddordeb mewn coedwigoedd. Mae'n bosibl ei fod o'r farn bod angen gwneud gwaith ychwanegol ar y coetir. Mae'n debygol bod ganddo ddiddordeb mewn gwella cynefinoedd bywyd gwyllt, a braidd dim diddordeb mewn cynhyrchu pren, ond efallai bod ganddo ddiddordeb mewn coed tân. Nid yw'n credu bod ei goetiroedd yn rhy fach i gael eu rheoli, neu bod cael mynediad iddynt yn anodd. Nid*

[1] Mae Coed Cymru yn hyrwyddo defnydd, gwarchod a gwella coetiroedd llydanddail. Mae Swyddogion Coetir yn darparu cymorth a chyngor rhad ac am ddim i berchnogion coetiroedd a defnyddwyr pren caled. Ariennir y sefydliad gan amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

yw'n credu y byddai rheoli'r coetir yn amharu ar reolaeth lyfn y fferm; ni ddylid cwympo'r coed er mwyn gwneud elw; nag y byddai rheoli'r coetiroedd yn cael effaith negyddol ar fywyd gwyllt.
Fodd bynnag, mae'n poeni nad oes ganddo ddigon o amser i reoli'r coetir, ac na fyddai'n cael llawer o gymorth ariannol. Er dweud hynny, mae'r ffermwr yn derbyn nad oes ganddo ddigon o wybodaeth am yr hyn y dylai ei wneud gyda'r coetiroedd ac nad oes ganddo fynediad at y cymorth technegol angenrheidiol i reoli'r coetiroedd.

O bell ffordd, y pwnc sydd o ddiddordeb mwyaf i ffermwyr yw nodi a gwarchod bywyd gwyllt y coetir, yn ogystal â rheoli rhywogaethau goresgynnol. Pamffledi a llyfrau yw'r ffynonellau mwyaf poblogaidd o wybodaeth ymysg y sampl o ffermwyr, hynny ac ymweliadau personol gan ymgynghorwyr coedwigaeth.